# CÔD YMDDYGIAD

Mae dangos **parch** at y **Gymraeg**, ein **hunain**, ein **gilydd**, ein **dysgu**, ac ein **hamgylchfyd**, yn creu **cymuned** lwyddiannus

## Cymraeg yw iaith Cymuned Cwm Rhondda

- ✓ Siaradwch Gymraeg a dathlwch eich Cymreictod ym mhob agwedd o fywyd ysgol

## Parch at fy hunan

- ✓ Ymddwyn mewn ffordd sy'n cadw fy hunan ac eraill yn ddiogel
- ✓ Peidio dod ag eitemau sydd wedi eu gwahardd i'r ysgol
- ✓ Sicrhau bod fy mhresenoldeb mor uchel â phosib
- ✓ Gwneud fy ngorau a dangos balchder wrth wynebu pob her

## Parch at ein gilydd

- ✓ Bod yn gwrtais ac onest gyda phawb yn ein cymuned
- ✓ Gwrando ar staff a dilyn cyfarwyddiadau
- ✓ Peidio â bwlio, galw enwau, defnyddio iaith anaddas nac ymladd

## Parch at ein dysgu

- ✓ Gwneud fy ngorau wrth weithio
- ✓ Bod yn brydlon
- ✓ Cyflwyno gwaith ar amser
- ✓ Sicrhau fod gennyf yr offer cywir
- ✓ Parchu hawl eraill i ddysgu

## Parch at ein hamgylchfyd

- ✓ Cadw ein dosbarthiadau, adeiladau ac ein safle yn daclus
- ✓ Symud o gwmpas yn drefnus a thawel
- ✓ Peidio â mynd i ardaloedd gwaharddedig
- ✓ Osgoi bwyta ac yfed mewn ardaloedd dysgu

## Parch at gymuned ac enw da Cwm Rhondda

- ✓ Ymddwyn yn gwrtais ac yn synhwyrol wrth deithio i'r ysgol ac wrth gynrychioli'r ysgol yn y gymuned
- ✓ Cymryd balchder yn fy ngwisg gan ddilyn rheolau Cymuned Cwm Rhondda
- ✓ Dangos parch a chwrteisi tuag at ymwelwyr